

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 22 Mehefin 2022**

Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad
1	YMDDIHEURIADAU	<p>Cynghorydd Win Mullen-James</p> <p>Roedd y Cynghorydd Michelle Walker yn methu ymuno â'r cyfarfod dros Zoom oherwydd materion technegol gyda'r system fideo gynadledda.</p>
2	PENODI CADEIRYDD	<b>PENDERFYNWYD</b> penodi'r Cynghorydd Bobby Feeley yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
3	PENODI IS-GADEIRYDD	<b>PENDERFYNWYD</b> penodi'r Cynghorydd Hugh Irving yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
4	DATGAN CYSYLLTIAD	Y Cynghorydd Joan Butterfield – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 10 ar y Rhaglen
5	MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD	Ni chodwyd unrhyw fater brys.
6	COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF	<b>PENDERFYNWYD</b> derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.
7	NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DABL FFIODED A THALIADAU CERBYDAU HACNI	<p><b>PENDERFYNWYD</b> bod -</p> <p>(a) y tariff bwriedig fel y manylwyd yn Atodiad D gyda'r adroddiad i gael ei gymeradwyo gyda dyddiad gweithredu 1 Gorffennaf 2022, yn ddarostyngedig i filltiroedd ychwanegol gael eu mesur mewn degfed rhan o gynyddran milltiroedd, dim newidiadau i'r amser tariff a fyddai'n parhau fel y gosodiad cyfredol yn 2018, a gordal fesul teithiwr o fwy na 4 teithiwr o 20c, ac</p> <p>(b) adolygiad o'r tariffau, gan gynnwys amser Tariff 2, i gael ei gynnal gydag adroddiad yn ôl i'r aelodau ar gyfer ystyriaeth bellach mewn tua chwe mis.</p>

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 22 Mehefin 2022**

Agenda Item No	Topic	Decision
8	Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR WAITH YR ADAIN DRWYDDEDU YN 2021/22	<b>PENDERFYNWYD</b> y byddai'r aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.
9	RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2022	<b>PENDERFYNWYD</b> bod -  (a) cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi; a  (b) cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2022 fel yr amlinellir yn Atodiad A i'r adroddiad.
10	CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 557452	<b>PENDERFYNWYD</b> gwrthod cais ar gyfer trwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 557452.